General Optical Council

# Ymgynghoriad ar (i) y datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig ar brofi golwg a (ii) diwygiadau arfaethedig i safonau goruchwyliaeth a dirprwyo yn ein Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu a Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol

**Gorffennaf 2026**

## Tudalen Gynnwys

**Trosolwg** ..... **3**
**Adran 1: Datganiad 2013 wedi'i ddiweddaru ar brofi golwg** ..... **5**
**Adran 2: Diweddariadau i safonau ar oruchwyliaeth a dirprwyo** ..... **19**
**Adran 3: Asesiad o'r effaith a'r Gymraeg** ..... **25**
**Adran 4: Sut i ymateb i'r ymgynghoriad** ..... **28**
**Atodiad 1: Datganiad wedi'i ddiweddaru drafft ar brofi golwg** ..... **29**
**Atodiad 2: Diwygiadau drafft i safonau goruchwyliaeth a dirprwyo** ..... **36**

## Trosolwg

### Yr hyn yr ydym yn ei wneud

1. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) yn rheoleiddio gwasanaethau gofal llygaid yn y DU. Ar hyn o bryd rydym yn cofrestru tua 35,000 o optometryddion, optegwyr dosbarthu, optometryddion dan hyfforddiant, optegwyr dosbarthu dan hyfforddiant a busnesau optegol. Gelwir y grwpiau ar ein cofrestr yn gofrestreion. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: https://cy.optical.org

2. Mae gennym bedair swyddogaeth graidd:

    - gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, perfformiad ac ymddygiad optegol;
    - cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru;
    - cynnal cofrestr o unigolion sy'n addas i ymarfer neu hyfforddi fel optometryddion neu optegwyr dosbarthu, a chyrff corfforaethol sy'n addas i gynnal busnes fel optometryddion neu optegwyr dosbarthu; ac
    - ymchwilio a gweithredu lle gallai addasrwydd cofrestreion i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes fod wedi'i amharu.

3. Yn ein hymateb ym mis Ebrill 2023 i'n galwad am dystiolaeth ar Ddeddf Optegwyr 1989 a'r ymgynghoriad ar bolisïau cysylltiedig y GOC, dywedasom y byddem yn ystyried diweddaru ein datganiad 2013 ar brofi golwg i egluro'r sefyllfa mewn perthynas â phrofion cyn sgrinio sy'n gysylltiedig â'r prawf golwg (y cyfeirir ato fel 'archwiliad llygaid' yn yr Alban) y gellir eu cynnal gan bobl heblaw'r optometrydd neu'r ymarferydd meddygol cofrestredig. Dywedasom hefyd ein bod yn ymwybodol o fusnesau a oedd yn gwahanu elfennau o'r prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le, ac y byddem yn ystyried y datblygiadau hyn yn fanylach.

4. Mae ein dull o ymdrin â'r mater hwn wedi'i seilio ar ein hamcan statudol cyffredinol i amddiffyn y cyhoedd. Ein nod yw cefnogi arloesedd cyfrifol wrth amddiffyn y cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a'r busnesau rydym yn eu rheoleiddio, fel yr amlinellir yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2025-30. Rydym o'r farn y bydd datganiad wedi'i ddiweddaru yn caniatáu inni roi mesurau diogelwch priodol ar waith i amddiffyn y cyhoedd yn ogystal â gwneud ein disgwyliadau ar gyfer cofrestreion yn glir.

5. Rydym wedi cynhyrchu datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig ar brofi golwg ac hoffem gael barn rhanddeiliaid arno. Wrth gynhyrchu'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig, fe wnaethom ystyried a oedd angen unrhyw newidiadau i'n Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu a'n Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol ar oruchwyliaeth a dirprwyo,

yn enwedig mewn perthynas â phrofion golwg lle nad yw optometrydd yn yr un ystafell â'r claf (math o ofal 'o bell' a elwir yn deleoptometreg). Rydym wedi drafftio opsiynau ar gyfer newidiadau i'r safonau ac hoffem gael barn rhanddeiliaid ar y rhain hefyd.

6. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor rhwng 15 Gorffennaf a 21 Hydref. Gallwch ymateb naill ai gan ddefnyddio ein platfform ymgynghori ar-lein neu drwy e-bostio consultations@optical.org.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

7. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar agor am 14 wythnos.

8. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, byddwn yn dadansoddi'r holl sylwadau a dderbyniwyd gennym ac yn nodi sut i fwrw ymlaen â'n cynigion ar gyfer diweddaru'r datganiad ar brofi golwg. Byddwn yn cynhyrchu dogfen yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwn i'r ymgynghoriad ac, os yw'n briodol, datganiad a safonau wedi'u diweddaru. Byddwn yn gofyn i'n Cyngor gymeradwyo'r rhain cyn eu cyhoeddi.

## Adran 1: Datganiad 2013 wedi'i ddiweddaru ar brofi golwg

9. Yn 2013 fe wnaethom gyhoeddi datganiad ar brofi golwg mewn ymateb i bryderon gan y sector ynghylch pwy allai gynnal y prawf golwg ac a ellid cynnal plygiant at ddiben rhoi presgripsiwn y tu allan i'r prawf golwg.

10. Yn 2022, fe wnaethom gynnal galwad am dystiolaeth ar y Ddeddf Optegwyr ac ymgynghoriad ar bolisïau cysylltiedig y GOC. Yn ein dogfen ymateb ym mis Mawrth 2023, gwnaethom nifer o ymrwymiadau, gan gynnwys:

    - gwiriadau cyn ac ar ôl sgrinio (paragraff 115): *"Byddwn yn ystyried diweddaru ein datganiad o 2013 ar brofi golwg i egluro'r sefyllfa mewn perthynas â phrofion cyn sgrinio a gwiriadau dosbarthu sy'n gysylltiedig â'r prawf golwg a all gael eu cynnal gan bobl heblaw'r optometrydd neu'r ymarferydd meddygol cofrestredig. Dros amser, mae datblygiadau mewn technoleg wedi golygu bod gwahanol gamau yn nhaith y claf wedi dod yn awtomataidd a'u dirprwyo'n ddiogel fel rhan o sgrinio ymlaen llaw a dosbarthu. Mae defnyddio awtoblygiannau yn un enghraifft o hyn ac rydym yn deall bod datblygiadau pellach, gan gynnwys mewn perthynas â phlygiant, ar y gorwel. Os penderfynwn ddiweddaru ein datganiad o 2013, byddwn yn cynnal ymgynghoriad pellach ar yr agwedd hon ar brofi golwg."*; a

    - gwahanu cydrannau'r prawf golwg (paragraff 116): *"Ein dehongliad ni yw nad yw'r Ddeddf yn gwahardd yn benodol wahanu elfennau'r prawf golwg yn ôl amser, lle na pherson. Mae modelau busnes yn esblygu ochr yn ochr â datblygiadau mewn technoleg. Er ei fod yn berthnasol i blygiant, mae'r mater hwn yn ymwneud yn fwy cyffredinol â sut mae'r prawf golwg yn cael ei gynnal, yn hytrach na pha fath o weithiwr optegol proffesiynol ddylai gyflawni gwahanol elfennau'r prawf golwg. Nododd y galwad am dystiolaeth amrywiaeth o safbwyntiau am hyn ac rydym yn bwriadu ystyried datblygiadau yn fanylach. Yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith hwn, efallai y byddwn yn egluro ein safbwynt mewn datganiad neu'n ceisio newid yn y gyfraith."*

### Gwiriadau cyn ac ar ôl sgrinio

11. Mae Deddf Optegwyr 1989 a Rheolau Profi Golwg gan Bobl sy'n Hyfforddi fel Optometryddion 1993 yn nodi mai dim ond optometrydd, ymarferydd meddygol cofrestredig neu optometrydd dan hyfforddiant dan oruchwyliaeth all gynnal profion golwg. Mae ein datganiad o 2013 yn cynnwys y geiriad, *"Ni ellir dirprwyo unrhyw ran o'r prawf golwg i optegydd dosbarthu nac optegydd lensys cyswllt, hyd yn oed dan oruchwyliaeth."* Nid yw'r datganiad yn sôn am ddirprwyo i staff eraill fel cynorthwywyr optegol.

12. Canfu ymchwil a gomisiynwyd gennym yn 2023[1] fod 11 o'r 15 cyfranogwr a oedd yn cynrychioli amrywiaeth o leoliadau optegol (gan gynnwys cyrff corfforaethol mawr, sectorau cartref a sectorau annibynnol) yn defnyddio staff cymorth (cynorthwywyr optegol fel arfer) ar gyfer profion cyn ac ar ôl sgrinio (a ddisgrifir fel pwysedd mewnllygadol, meysydd golwg, ffotograffau/sganiau o'r retina). Rydym yn deall bod yr arfer hwn wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd lawer gan adlewyrchu datblygiadau mewn technoleg.

13. Gwyddom fod rhai rhanddeiliaid yn dehongli ein datganiad yn 2013 ar brofi golwg i olygu na ellir dirprwyo gwiriadau cyn ac ar ôl sgrinio oherwydd eu bod yn ystyried y rhain yn rhan o'r prawf golwg, tra bod eraill yn ystyried y gellir dirprwyo'r rhain gan eu bod yn digwydd cyn / ar ôl y prawf golwg. Gall datganiadau safbwynt y GOC helpu i gefnogi cofrestreion drwy nodi sut y gall deddfwriaeth fod yn berthnasol yn y cyd-destun cyfreithiol, cymdeithasol a thechnolegol cyfredol.

14. O ystyried datblygiadau mewn technoleg a darparu gwasanaethau ers 2013, rydym yn cynnig diweddaru'r datganiad i adlewyrchu'r amgylchedd sydd wedi newid a rhoi mwy o eglurder i gofrestreion ynghylch ein disgwyliadau. Yn benodol, mae'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig yn dweud y gall optometrydd[2] ddirprwyo rhai rhannau o'r prawf golwg i berson sydd wedi'i hyfforddi'n addas (megis optegydd dosbarthu neu rywun nad yw'n gofrestrai), ar yr amod bod yr optometrydd yn cadw rheolaeth gyffredinol dros y broses ac yn goruchwylio'r dasg (tasgau) sy'n cael eu cyflawni.

15. Canfu astudiaeth Delphi a gomisiynwyd fel rhan o ymchwil gennym ym mis Mehefin 2024[3] gonsensws y gellid dirprwyo rhai cydrannau o'r prawf golwg yn ddiogel: *“Ystyriwyd hefyd dirprwyo cydrannau o'r prawf llygaid i unigolion â chymwysterau priodol… Cydrannau a ystyriwyd yn addas i'w dirprwyo oedd golwg cyflwyniadol (risg isel yn unig), asesiad ffwndws gwrthrychol, OCT [sgan tomograffeg cydlyniant optegol], IOP [pwysedd mewnllygadol], a meysydd gweld. Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu protocolau cyfredol mewn ymarfer optometreg, lle mae unigolion sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, e.e. staff cymorth fel cynorthwyydd optegol, yn cynnal amrywiaeth o brofion gwrthrychol ac anfewnwthiol."*

16. Gan fod yr arfer hwn wedi bod yn gyffredin ers peth amser a bod astudiaeth Delphi wedi cynhyrchu consensws y gellir dirprwyo gweithdrefnau o'r fath yn ddiogel, rydym wedi paratoi datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig (gweler atodiad 1). Bydd hyn yn cefnogi optometryddion i gyflawni eu cyfrifoldebau

[1] Evans, B., Shah, R., Conway, M. and Chapman, L. (2023), *Clinical research on refraction in the sight test*
[2] Neu ymarferydd meddygol cofrestredig
[3] Jonuscheit, S. et al. (2025), ‘Testing of sight - a risk-based framework: Project report’

drwy ddirprwyo'r gweithgareddau hyn i eraill (gan gyfeirio at rannau perthnasol o'n Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu, megis safon 9 ynghylch “cydweithwyr anghofrestredig sy’n gwneud gweithgareddau dirprwyedig”). Mae'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig hefyd yn egluro cyfrifoldebau busnesau sy'n gofrestreion mewn perthynas â'n Safonau ar gyfer Busnesau Optegol.

17. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ein cynorthwyo i nodi a phenderfynu ar y tebygolrwydd y bydd unrhyw risgiau mewn perthynas â chyhoeddi ein datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig yn dod i'r amlwg, a sut i liniaru'r risgiau hyn a/neu ganlyniadau anfwriadol.

18. Byddwn yn trafod gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a allai fod yn briodol diweddaru'r ddeddfwriaeth i roi eglurder ychwanegol ar ddirprwyo gwiriadau cyn ac ar ôl sgrinio fel rhan o'i rhaglen i ddiwygio deddfwriaeth rheoleiddwyr gofal iechyd. Fodd bynnag, mae'r amserlen ar gyfer newid deddfwriaethol y tu hwnt i'n rheolaeth a'n dealltwriaeth yw na fydd newid i'r Ddeddf Optegwyr na deddfwriaeth gysylltiedig yn cael blaenoriaeth o fewn y senedd bresennol.

**Gwahanu cydrannau'r prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le**

19. Drwy wahanu'r prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le, rydym yn golygu:

    - amser: pan fydd gwahanol gydrannau o'r prawf golwg yn cael eu cyflawni ar draws apwyntiadau ar wahân (a elwir weithiau'n anghydamserol). Er enghraifft, casglu data cyn y prawf un diwrnod, a dehongli clinigol neu wneud penderfyniadau ar ddiwrnod arall. Gallai fformatau gofal anghydamserol yn y dyfodol, y mae'n bosibl eu rhagweld, gynnwys, er enghraifft, asesiadau cyn sgrinio mewn un apwyntiad ac yna archwiliadau plygiant ac iechyd y llygaid wyneb yn wyneb mewn ail apwyntiad;

    - person: pan fydd nifer o unigolion (weithiau â gwahanol lefelau o gofrestriad neu gymhwyster) yn cyfrannu at wahanol rannau o'r prawf golwg. Yn y dyfodol, gallai profi golwg gynnwys technegwyr, asesiadau â chymorth deallusrwydd artiffisial, neu glinigwyr sy'n gweithio ar draws systemau dosbarthedig; a

    - lle: pan fydd gwahanu ffisegol rhwng cydrannau'r prawf golwg yn ôl lleoliad. Er enghraifft, gellir casglu data mewn practis cymunedol neu ganolfan symudol cyn y sgrinio, tra bod dadansoddi a gwneud penderfyniadau yn digwydd o bell, efallai mewn ysbyty neu ganolfan ddiagnostig. Mae rhai busnesau optegol yn treialu teleoptometreg lle mae'r claf yn mynychu practis gyda thechnegydd yn gweithredu'r peiriannau ac mae'r optometrydd sy'n cynnal yr archwiliad mewn lleoliad gwahanol, yn siarad â'r technegydd

a'r claf trwy sgrin, gyda mynediad at yr holl ganlyniadau ar gael mewn amser real.

20. Fel sy'n amlwg o'r enghreifftiau uchod, gallai profion golwg esblygu mewn ffyrdd sy'n gwahanu un neu fwy o'r elfennau amser, person neu le.

21. Er bod ffocws trafodaethau'r sector wedi bod ar brofi golwg gan ddefnyddio teleoptometreg, byddai ein datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig yn berthnasol i bob prawf golwg sydd wedi'i wahanu gan amser, person a/neu le. Mae angen i ni hefyd ystyried sut y gallai profion golwg esblygu yn y dyfodol o ystyried datblygiadau mewn technoleg (gan gynnwys effaith deallusrwydd artiffisial) ac ysgogwyr eraill. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio mewnwelediadau ar ddatblygiadau posibl yn y dyfodol mewn profi golwg fel y gallwn ystyried goblygiadau rheoleiddiol newid.

**C1. Sut y gallai profi golwg barhau i esblygu yn y dyfodol?**

**Deall rôl a dull y GOC**

22. Mae gan y GOC ddyletswydd i ddarparu canllawiau ar addasrwydd i ymarfer yn ôl adran 13A o'r Ddeddf. Mae datganiad 2013 yn gyfystyr â chanllawiau o'r fath. Mae Adran 13A(4) yn ei gwneud yn ofynnol i ganllawiau o'r fath gael eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen. O ystyried newidiadau mewn technoleg a darpariaeth gwasanaethau ers 2013, mae'n briodol ac yn angenrheidiol adolygu a diwygio'r datganiad i adlewyrchu ymarfer clinigol modern.

23. Mae'r materion a ystyrir yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chroestoriad o'r gyfraith, rheoleiddio a threfniadau contractio'r GIG ar gyfer gwasanaethau optegol yn y pedair gwlad. At ei gilydd, amcanion ein hadolygiad o ddatganiad 2013 a safon 9 yw: darparu eglurder i gofrestreion drwy nodi'r ddeddfwriaeth berthnasol; cefnogi arloesedd cyfrifol mewn fformatau profi golwg; a chynyddu diogelwch y cyhoedd drwy roi mesurau diogelwch priodol ar waith.

24. Nid oes gennym unrhyw rôl statudol i gymeradwyo ymlaen llaw wahanol fformatau o brofion golwg na dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau (er ein bod yn cadw ar y blaen o ran datblygiadau perthnasol), ac ni fyddai'n briodol i ni ddatgan dewis am fformat penodol ar gyfer profi golwg na dull penodol o ddarparu gwasanaethau. Mae busnesau optegol yn rhydd i weithredu ystod o fformatau profi golwg sy'n gyson â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'n trefniadau rheoleiddio.

25. Cynllun ein deddfwriaeth yw, wrth arfer ein swyddogaethau rheoleiddio (addysg a hyfforddiant, cofrestru, safonau ac addasrwydd i ymarfer), fod yn rhaid inni

ddilyn ein hamcanion statudol. Ein prif amcan yw diogelu'r cyhoedd, sydd yn ei dro yn cynnwys mynd ar drywydd yr amcanion canlynol:

- diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd;
- hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio;
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny; a
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad priodol ar gyfer busnesau sy'n gofrestreion.

26. Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn, rydym yn defnyddio ein swyddogaeth o gynnal safonau ymddygiad proffesiynol a busnes priodol i'n helpu i gyflawni'r amcanion hyn. Er mai dim ond y llysoedd all benderfynu sut mae'r gyfraith yn berthnasol ym mhob sefyllfa, gallwn ni gefnogi cofrestreion drwy ddatganiadau safbwynt. Rydym hefyd yn ystyried y bydd datganiad wedi'i ddiweddaru yn caniatáu inni roi mesurau diogelwch priodol ar waith wrth i brofi golwg barhau i esblygu.

27. Wrth ystyried y materion hyn rydym wedi defnyddio 'cyffyrddiad cywir' o reoleiddio yn unol â chanllawiau gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA)[4], sy'n goruchwylio rheoleiddwyr gofal iechyd y DU. Mae hyn yn edrych ar lefel y risg o niwed ac yn dewis yr ymateb mwyaf effeithiol a chymesur, gan 'wneud digon i liniaru'r risg i lefel dderbyniol a dim rhagor'. Mae canllawiau'r PSA yn defnyddio diffiniad eang o niwed i olygu 'anaf corfforol neu seicolegol, neu golled neu niwed arall'. At hynny, rydym yn cydnabod yr angen i oddef lefel briodol o risg a bod cydbwyso manteision a risgiau newid yn gallu golygu cyfaddawdu.

28. Ni all ein datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig ragweld pob cyfuniad posibl o amser, person a/neu le, na'r amgylchiadau y gallent fod yn berthnasol ynddynt, a fydd yn newid dros amser. O'r herwydd, rydym yn fwriadol wedi mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n seiliedig ar egwyddorion allweddol. Dylai hyn helpu i ddiogelu'r datganiad ar gyfer y dyfodol er y byddwn yn adolygu'r datganiad o fewn pum mlynedd fan bellaf ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, neu'n gynt os oes angen yn ôl yr amgylchiadau.

29. Gall dulliau o brofi golwg gael eu cyfyngu trwy gontractau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS), ond nid oes gennym unrhyw rôl mewn trefniadau o'r fath. Efallai y bydd comisiynwyr y GIG am gymhwyso cyfyngiadau ychwanegol wrth brynu gwasanaethau optegol gan gontractwyr yn y sector

[4] Rheoleiddio cyffyrddiad cywir | PSA

preifat ac wrth wneud hynny bydd angen iddynt ystyried amrywiaeth o ffactorau nad ydynt yn ymwneud â rheoleiddio.

**Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth**

30. Wrth i'r broses o ddarparu gwasanaethau profi golwg esblygu, mae deall manteision a risgiau gwahanu cydrannau prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le yn dod yn gynyddol bwysig.

31. Er mwyn adeiladu ein sylfaen dystiolaeth, comisiynwyd ymchwil gydag arbenigwyr a chleifion, a ddisgrifir ym mharagraffau 32 i 36 isod. Yn ogystal, rydym wedi ceisio deall mwy am fformatau profion golwg sy'n newid yn y DU a thramor. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil desg, arsylwi fformatau gan ddefnyddio teleoptometreg yn ymarferol, a chyfarfodydd â Chymdeithas y Cyflenwyr Optegol (OSA) a chwmnïau eraill a oedd wedi datblygu cynhyrchion/meddalwedd a allai gael eu defnyddio mewn teleoptometreg. Ym mis Hydref 2025, fe wnaethom gynnull bwrdd crwn o randdeiliaid i drafod y materion. Rhoddodd pwyllgorau cynghori statudol y GOC gyngor i'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Tachwedd 2025 a mis Mai 2026.

32. Yn 2025, cyhoeddasom ymchwil annibynnol, sef ‘Profi golwg - fframwaith yn seiliedig ar risg'[5] a oedd yn ceisio deall manteision a risgiau gwahanu gwahanol gydrannau prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le. Roedd ganddo ddwy brif gydran – adolygiad cwmpasu ac astudiaeth Delphi (dull ymchwil sy'n ceisio meithrin consensws), gyda chasgliadau gwahanol o'r ddwy ran:

    - dangosodd yr adolygiad cwmpasu botensial ar gyfer gwahanol fformatau o ofal llygaid sy'n cynnwys gwahanu yn ôl amser, person a/neu le i wella'r ddarpariaeth gofal llygaid trwy arloesedd. Roedd y manteision yn cynnwys gostyngiad mewn atgyfeiriadau, gostyngiad mewn ymweliadau diangen â gwasanaeth llygaid ysbytai (HES), gwelliannau yn ansawdd atgyfeiriadau a lefelau uchel o foddhad cleifion. Fodd bynnag, nodwyd bod diffyg treialon rheoledig ar hap ar gael yn yr adolygiad cwmpasu (a welir fel y dulliau astudio o'r ansawdd uchaf) ac y byddai angen ystyried hyfywedd economaidd, parodrwydd seilwaith a derbyniad cleifion yn ofalus cyn eu gweithredu; a

    - ni allai'r panel Delphi gytuno ynghylch a oedd risgiau o safbwynt gwahanu cydrannau profion golwg ar gyfer cleifion a ystyrir yn risg isel (oedolyn ifanc sy'n cyflwyno heb unrhyw broblemau, dim ffactorau risg hysbys ar gyfer clefyd y llygaid a dim hanes llygaid blaenorol), ond roedd consensws eang bod gwahanu yn arwain at risg i gleifion yn y grŵp risg uwch (e.e. y rhai

[5] Jonuscheit, S. et al. (2025), ‘Testing of sight - a risk-based framework: Project report’

dros 50 oed sy'n cyflwyno heb unrhyw broblemau na hanes llygaid blaenorol ond a oedd â ffactorau risg ychwanegol ar gyfer clefyd y llygaid).

33. At ei gilydd, daeth yr astudiaeth i'r casgliad y gallai gwahanu cydrannau profion golwg yn ôl amser, person a/neu le beri rhai risgiau i'r GIG a chleifion. Fodd bynnag, yng nghyd-destun prawf golwg arferol, ystyriwyd bod y tebygolrwydd y byddai'r risgiau hyn yn digwydd yn isel. Daeth i'r casgliad hefyd y gallai teilwra gofal llygaid i unigolion, er enghraifft, drwy ystyried proffiliau risg cleifion yn fwy trylwyr, gynnig manteision sylweddol wrth atal, diagnosio a rheoli cyflyrau llygaid. Argymhellwyd astudiaethau yn y dyfodol i benderfynu a ellid ystyried bod dull personol yn seiliedig ar asesiad risg cleifion yn werth am arian ac yn gost-effeithiol.

34. Fe wnaethon ni adolygu'r astudiaethau yn yr adolygiad cwmpasu yn ymchwil fframwaith seiliedig ar risg 2025 yn ymwneud â'r thema 'bodlonrwydd a derbynioldeb o safbwynt cleifion' ac ystyried y byddai ymchwil bellach yn y maes hwn yn ddefnyddiol. Felly, fe gomisiynwyd ymchwil ansoddol ar farn cleifion a'r cyhoedd ar brofion golwg gan ddefnyddio teleoptometreg, gan ein bod yn ystyried ei bod yn bwysig deall y persbectif hwn a chael barn ar unrhyw fesurau diogelwch a fyddai'n cefnogi hyder y cyhoedd. Mae'r adroddiad ymchwil[6] wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

35. Dangosodd yr ymchwil fod pobl yn ofalus ond yn agored yn amodol i brofi golwg gan ddefnyddio teleoptometreg, gan gynnwys y casgliadau canlynol:

- roedd teleoptometreg yn cael ei ddeall yn eang ar ôl iddo gael ei esbonio ac fe'i gwelwyd fel datblygiad rhesymegol i'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill o fewn gofal iechyd a thelefeddygaeth;
- fe'i hystyriwyd yn briodol mewn cyd-destunau penodol (gan gynnwys y rheswm dros yr apwyntiad) yn hytrach na bod yn angenrheidiol yn gyffredinol;
- roedd derbynioldeb o safbwynt cleifion yn amodol ar fesurau diogelwch (megis cymwysterau'r technegydd sy'n gweithredu'r offer, technoleg addas), cyfathrebu a rhoi dewis i'r claf ynghylch a ddylai gymryd rhan ai peidio;
- roedd hyder cleifion mewn teleoptometreg yn dibynnu'n fawr ar ymddiriedaeth mewn rheoleiddio, safonau proffesiynol a goruchwyliaeth glinigol; ac
- roedd pryder gan rai cyfranogwyr y gellid cyflwyno dulliau newydd mewn ffyrdd sy'n lleihau ansawdd gofal yn hytrach na'i wella (e.e. yr optometrydd heb fod yn canolbwyntio'n llwyr oherwydd ei fod mewn amgylchedd cartref,

[6] Enventure Research (2026), 'Patient views on teleoptometry: Research report'

neu'r potensial am golli patholeg neu gamddiagnosis lle nad yw optometrydd yn bresennol yn gorfforol).

36. Daeth yr ymchwil i'r casgliad, *"Roedd llawer o gyfranogwyr yn cydnabod manteision posibl teleoptometreg ond yn pwysleisio na ddylai arloesedd ddod ar draul ansawdd a phrofiad y claf. Ar y cyfan, ystyriwyd bod teleoptometreg yn dderbyniol fel opsiwn ychwanegol o fewn gofal llygaid, pan fo angen, ar yr amod ei fod yn cael ei gyflwyno'n ofalus, yn dryloyw, a chyda mesurau diogelwch cryf ar waith."*

**Ein hasesiad**

37. Yn ein hasesiad ni, gallai newidiadau yn y ffordd y darperir gwasanaethau arwain at fanteision gan gynnwys gwella mynediad i gleifion mewn rhai ardaloedd daearyddol lle mae prinder optometryddion, gwella effeithlonrwydd i fusnesau a threfniadau gwaith mwy hyblyg i gofrestreion. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl y gallai'r newidiadau gyflwyno pwyntiau gwendid newydd lle mae goruchwyliaeth glinigol, uniondeb data ac atebolrwydd yn cael eu gwanhau.

38. Rydym o'r farn mai diweddaru ein datganiad safbwynt a diwygio ein safonau ar oruchwyliaeth a dirprwyo sy'n cynnig y dull gorau o liniaru'r risgiau allweddol. Wrth wneud hynny, ein nod yw cefnogi arloesedd cyfrifol mewn fformatau profi golwg a chynyddu diogelwch y cyhoedd drwy roi mesurau diogelwch priodol ar waith. Nod y mesurau diogelwch hyn yw mynd i'r afael ag amrywiaeth o niweidiau posibl a nodwyd drwy'r broses casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys:

    - niwed corfforol, e.e. risgiau clinigol fel methu diagnosis – mae'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig wedi'i lywio gan egwyddorion a nodir ym mharagraffau 54-56 gan gynnwys yr optometrydd yn parhau i gadw rheolaeth gyffredinol dros y broses, asesu addasrwydd cleifion yn seiliedig ar risg, rôl archwilio a gwerthuso clinigol a bod gan yr holl staff gymwysterau a hyfforddiant priodol;

    - colli ymddiriedaeth a hyder yn y proffesiwn – yn ogystal â mesurau diogelwch i fynd i'r afael â risgiau niwed corfforol a allai effeithio ar ymddiriedaeth a hyder mae'r egwyddorion yn pwysleisio dewis a chaniatâd gwybodus gan gleifion;

    - allgáu digidol – mae'r egwyddorion yn mynd i'r afael â chleifion sy'n agored i niwed yn unol â'n canllawiau[7] gan gynnwys yn benodol lle mae fformat prawf golwg yn rhoi cleifion a allai fod yn llai abl i ymgysylltu â dulliau o bell

[7] Canllawiau ar ofalu am gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed

neu ddulliau sy'n cael eu galluogi gan dechnoleg dan anfantais, ac ystyried dewisiadau eraill;

- effeithiau ar weithwyr proffesiynol a busnesau – rydym yn rhagweld rhywfaint o botensial ar gyfer amharu ar ffyrdd sefydledig o weithio ond o ystyried maint y buddsoddiad sydd ei angen i ddarparu fformatau prawf golwg fel teleoptometreg, mae'n annhebygol y bydd hyn yn dod yn ymarfer arferol o leiaf yn y tymor byr.

39. Rydym yn ymwybodol o bryderon rhanddeiliaid y gallai gwahanu cydrannau prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le danseilio nodwedd allweddol o brofi golwg yn y DU gan ei fod yn cyfuno archwiliadau golwg ac iechyd y llygaid. Mae'r nodwedd hon o brofion golwg yn y DU yn darparu manteision sylweddol i iechyd y cyhoedd, nad ydym am eu tanseilio trwy ein dewisiadau polisi. I fynd i'r afael â hyn, mae'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig yn cadarnhau bod deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i brofion golwg at ddiben rhoi presgripsiwn gynnwys gwiriadau ar gyfer craffter gweld, golwg deulygadog ac iechyd y llygaid. Mae hefyd yn nodi na ddylid rhoi presgripsiwn am sbectol nes bod holl gydrannau statudol y prawf golwg wedi'u cwblhau.

40. Ni ellir rhagweld datblygiadau yn y dyfodol mewn fformatau profi golwg gyda sicrwydd. Felly, byddwn yn parhau i adolygu'r datganiad i ymateb i risgiau newydd neu risgiau sy'n cynyddu wrth i'r rhain ddod i'r amlwg. Fel y nodwyd uchod, os bydd y Cyngor yn cymeradwyo datganiad wedi'i ddiweddaru yn y pen draw ar ôl ymgynghori, rydym yn bwriadu adolygu'r datganiad o fewn pum mlynedd fan bellaf ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. Byddem yn cychwyn adolygiad yn gynt na hyn pe bai amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol.

**C2. Beth yn eich barn chi yw prif fanteision profion golwg sy'n cynnwys gwahanu yn ôl amser, person a/neu le?**

**C3. Beth yn eich barn chi yw prif risgiau profion golwg sy'n cynnwys gwahanu yn ôl amser, person a/neu le?**

**C4. Rhowch dystiolaeth ar ddiogelwch ac effeithiolrwydd profion golwg sy'n cynnwys gwahanu yn ôl amser, person a/neu le sy'n gweithredu ar hyn o bryd.**

**Datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig ar brofi golwg**

41. Ar ôl ystyried yr wybodaeth a gasglwyd hyd yma, rydym wedi cynhyrchu datganiad drafft wedi'i ddiweddaru (atodiad 1) ar gyfer ymgynghori. Mae'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig wedi'i rannu'n bum adran a amlinellir isod.

*Adran 1 – Cyflwyniad*

42. Mae'r cyflwyniad yn egluro bod cwmpas y datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig yn ymwneud â phrofi golwg. Rydym wedi ystyried a ddylai'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig gael ei gymhwyso'n ehangach na phrofi golwg o ystyried bod modd darparu gwasanaethau gofal llygaid eraill a ddarperir gan gofrestreion o bell, er enghraifft, rheoli cyflyrau hirdymor. Fodd bynnag, rydym wedi cyfyngu'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig i brofi golwg gan fod gan hyn gylch gwaith penodol o fewn y gyfraith, ei fod yn ffocws dadl ymhlith rhanddeiliaid a dyma lle mae'r cyfle mwyaf i darfu ar y farchnad. Yn ogystal, mae canllawiau eisoes ar gael gan reoleiddwyr gofal iechyd[8] a chyrff proffesiynol/cynrychioliadol ar ymgynghoriadau a rhagnodi o bell i gofrestreion eu defnyddio.

43. Rydym yn cydnabod y gall gwahanu cydrannau'r prawf golwg ddigwydd yn gyffredin am resymau clinigol cadarn. Er enghraifft, efallai y bydd angen gwahanu'r prawf golwg yn ôl amser ar gyfer plant nad ydynt yn cydweithredu, cleifion sydd angen archwiliadau llygaid plygiant seicloplegig neu ymlededig mewnol, neu oedolion agored i niwed na allant oddef archwiliad llawn mewn un sesiwn. Nid yw ffocws y datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig ar senarios o'r fath ond yn hytrach lle mae gwahanu yn nodwedd graidd a gynlluniwyd o brawf golwg a weithredir yn rheolaidd gan y busnes.

44. Mae paragraff 2 o'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig yn cadarnhau'r gofynion deddfwriaethol presennol bod rhaid i brofion golwg at ddiben rhoi presgripsiwn gynnwys gwiriadau ar gyfer craffter gweld, gwall plygiannol, golwg deulygadog ac iechyd y llygaid a pham mae hyn yn bwysig ar gyfer adnabod cyflyrau iechyd y llygaid yn gynnar.

*Adran 2 – Deddfwriaeth profi golwg*

45. Mae ail adran y datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig yn tynnu sylw at ddarpariaethau allweddol y ddeddfwriaeth berthnasol, sef Deddf Optegwyr 1989 a Rheoliadau Profi Golwg (Archwilio a Rhagnodi) (Rhif 2) 1989.

*Adran 3 – Dirprwyo gweithgareddau ar gyfer y prawf golwg*

[8] Egwyddorion lefel uchel ar gyfer arfer da mewn ymgynghoriadau a rhagnodi o bell

46. Mae paragraff 6 yn nodi y gall optometrydd ddirprwyo rhai rhannau o'r prawf golwg i berson sydd wedi'i hyfforddi'n addas (megis optegydd dosbarthu neu rywun nad yw'n gofrestrai), ar yr amod bod yr optometrydd yn cadw rheolaeth gyffredinol dros y broses ac yn goruchwylio'r dasg (tasgau) sy'n cael eu cyflawni.

47. Mae paragraff 7 yn rhoi enghreifftiau o dasgau y gellir eu dirprwyo'n ddiogel gan ddefnyddio tystiolaeth yr ymchwil a gomisiynwyd.

48. Mae paragraffau 8 a 9 yn ymwneud â phlygiant (asesiad o olwg y claf i bennu'r gwall plygiannol). Fe wnaethon ni nodi bod plygiant a gyflawnir at ddiben rhoi presgripsiwn yn weithgaredd cyfyngedig, ond nid yw plygiant at ddibenion eraill (e.e. gwirio presgripsiwn wrth ffitio sbectol) wedi'i gyfyngu. Rydym yn datgan nad ydym yn fodlon y gellir dirprwyo plygiant goddrychol yn ddiogel ac felly ni ddylai unrhyw un arall gynnal plygiant at ddibenion y prawf golwg. Mae hyn yn cyfeirio at benderfyniad y Cyngor ym mis Mawrth 2023[9], a ddilynodd ymgynghoriad cyhoeddus ac adolygiad manwl o'r mater hwn. Nid ydym yn ceisio barn ar y mater hwn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

49. Mae paragraffau 10 ac 11 yn atgoffa cofrestreion o'n safonau ymarfer sy'n ymwneud â goruchwyliaeth a dirprwyo. Ystyrir y materion hyn ymhellach yn adran 2 o'r ddogfen ymgynghori.

*Adran 4 – Gwahanu'r prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le*

50. Mae paragraff 13 yn nodi bod y Ddeddf yn caniatáu gwahanu cydrannau'r prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le, ac nad yw'n cyfyngu ar y math o offer, cynhyrchion neu dechnoleg y gall cofrestreion eu defnyddio.

51. Mae paragraff 14 yn nodi cyfrifoldebau optometryddion wrth ddirprwyo neu ddefnyddio technoleg neu offer, gan egluro bod rhaid i ofal, llesiant a diogelwch cleifion fod yn flaenllaw bob tro, a bod rhaid i gofrestreion weithredu er budd gorau'r claf bob amser.

52. Mae paragraff 15 yn nodi, lle mae mwy nag un optometrydd yn cynnal gwahanol gydrannau o'r prawf golwg, mai cyfrifoldeb yr optometrydd sy'n cynnal y cydrannau diweddaraf fydd sicrhau ei hun bod y cydrannau blaenorol wedi'u cynnal yn briodol ac, os na, dylai ailadrodd y cydrannau hynny. Rydym yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pob elfen o'r prawf golwg wedi'i chwblhau'n foddhaol a bod yr optometrydd yn gallu defnyddio dull cyfannol o asesu'r holl wybodaeth a ddylai fod ar gael.

53. Mae paragraffau 16 i 18 o'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig yn amlinellu mesurau diogelwch yr ydym yn eu hystyried yn angenrheidiol i gefnogi arloesedd cyfrifol ac amddiffyn y cyhoedd. Maent yn defnyddio ein

[9] Gweler tudalen 16 ymlaen 20230322-public-council-meeting-meeting-papers-mar23.pdf

datganiad ar y defnydd o dechnoleg a gynhyrchwyd gennym yn ystod pandemig COVID-19.

54. Mae paragraff 16 yn nodi cyfrifoldebau'r cofrestrai busnes i sicrhau bod fformat y prawf golwg yn ddiogel, gan gynnwys:

- dangos bod fformat y prawf golwg yn ddiogel (gan gynnwys technoleg briodol ar waith i'w gefnogi) ac yn creu disgwyliad ei fod yn destun archwiliad/gwerthusiad parhaus, yn enwedig lle mae'r prawf golwg wedi'i wahanu gan ddau ddimensiwn neu fwy o ran amser, person a/neu le;

- rhoi protocolau a manylebau gwasanaeth ar waith i benderfynu cyn yr apwyntiad a yw fformat y prawf golwg yn addas i'r claf (haenu risg) ac i ddelio â sefyllfaoedd sy'n codi yn ystod yr apwyntiad lle mae'n dod yn amlwg nad yw'r fformat yn briodol i'r claf mwyach; a

- sicrhau bod staff sy'n ymwneud ag unrhyw gydrannau o'r prawf golwg (gan gynnwys y rhai sy'n cynorthwyo optometryddion neu'r rhai y mae optometryddion yn dirprwyo iddynt) wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso'n briodol.

55. Mae paragraff 17 yn nodi cyfrifoldebau sy'n berthnasol i'r cofrestrai busnes a'r optometrydd, gan gynnwys:

- gallu cyfiawnhau'n glinigol y rhesymau dros unrhyw wahanu rhwng cydrannau prawf golwg gan gyfnod sylweddol o amser;

- sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, gan gynnwys sicrhau nad yw presgripsiwn am sbectol yn cael ei roi nes bod holl gydrannau statudol y prawf golwg wedi'u cwblhau;

- sicrhau bod cleifion yn deall fformat y prawf golwg a gynigir iddynt cyn yr apwyntiad, fel y gallant wneud dewis a rhoi caniatâd gwybodus yn briodol (neu fel arall);

- ystyriaethau sy'n ymwneud â chleifion mewn amgylchiadau agored i niwed, gan gynnwys mewn perthynas â dewis, caniatâd ac addasrwydd fformatau profion golwg; a

- chydnabod y gall gwahanol fformatau prawf golwg effeithio ar brofiad y claf yn ogystal â diogelwch clinigol.

56. Lle mae gwahanu cydrannau profion golwg yn digwydd, rydym o'r farn bod cryfder llywodraethu yn allweddol ac y dylai fformatau sy'n gwahanu mwy nag un gydran prawf golwg fodloni safonau uwch o ran sicrwydd, archwilio a goruchwylio (paragraff 16, bwled cyntaf). Er nad oes tystiolaeth ymchwil ar y risgiau cymharol, mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod rhai agweddau ar wahanu cydrannau prawf golwg yn fwy peryglus nag eraill, yn enwedig amser.

Rydym felly wedi ychwanegu cyfeiriad at wahanu gan 'gyfnod sylweddol o amser' yn y datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig (paragraff 17, bwled cyntaf).

57. Mae paragraff 18 yn atgyfnerthu bod yn rhaid i gofrestreion unigol roi gofal eu cleifion yn flaenllaw ac uwchlaw pob peth arall. Mae'r bwledi'n nodi ystod o ffactorau y dylai cofrestreion eu hystyried wrth arfer eu barn broffesiynol.

58. Mae paragraff 19 yn atgoffa cofrestreion o'r egwyddor ganlynol sydd wedi'i chynnwys yn ein Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu: "*Rydych chi'n atebol yn broffesiynol ac yn bersonol gyfrifol am eich ymarfer ac am yr hyn rydych chi'n ei wneud neu ddim yn ei wneud, ni waeth pa gyfarwyddyd neu arweiniad rydych chi'n ei gael gan gyflogwr neu gydweithiwr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi bob amser allu cyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd.*"

*Adran 5 – Safonau ymarfer*

59. Mae adran 5 o'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig yn rhestru ein safonau ymarfer perthnasol. Bydd ein dull gorfodi yn cydnabod y bydd penderfyniadau ar gynllunio profion golwg a phrotocolau gweithredu yn cael eu gwneud gan fusnesau optegol, tra bydd penderfyniadau eraill yn nwylo cofrestreion unigol sy'n arfer barn glinigol, er enghraifft, penderfynu a yw'r fformat yn addas i glaf.

**C5. Rhowch sylwadau ar gynnwys y datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig ar brofi golwg mewn perthynas â dirprwyo gweithgareddau ar gyfer y prawf golwg.**

**C6. Rhowch sylwadau ar gynnwys y datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig mewn perthynas â gwahanu'r prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le.**

**C7. Os ydych chi'n ystyried bod angen mesurau diogelwch ychwanegol i amddiffyn y cyhoedd, rhowch fanylion yma.**

**C8. Nodwch unrhyw adrannau o'r datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig y gellid eu gwneud yn gliriach a disgrifiwch sut.**

**C9. Rhowch fanylion am unrhyw sylwadau eraill ar y datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig ar brofi golwg nad ydynt wedi'u cynnwys uchod.**

## Adran 2: Diweddariadau i safonau ar oruchwyliaeth a dirprwyo

60. Pan wnaethom adolygu ein Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu a'n Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol yn 2024, fe wnaethom ystyried newidiadau mewn technoleg a gwneud diweddariadau i sicrhau bod cofrestreion yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn technolegau digidol ac yn defnyddio eu barn broffesiynol wrth ddefnyddio'r data maen nhw'n ei gynhyrchu i lywio gwneud penderfyniadau.

61. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar ein safonau ymarfer dywedasom y byddem yn adolygu safon 9 ar oruchwyliaeth ar ôl i'r adolygiad o'n datganiad yn 2013 ar brofi golwg gael ei gwblhau. Gan fod y datganiad safbwynt a'r safonau yn gysylltiedig â'i gilydd, rydym am iddynt ddod i rym ar yr un pryd. Felly, rydym wedi adolygu ein safonau goruchwyliaeth – safon 9 o'r Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu a safon 8 o'r Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol – ac yn cynnig gwneud rhai newidiadau. Rydym yn ystyried materion sy'n ymwneud â goruchwylio myfyrwyr a goruchwylio cydweithwyr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig yn eu tro.

*Goruchwylio hyfforddeion cyn-gofrestru (myfyrwyr)*

62. Ymddengys mai'r consensws ymhlith rheoleiddwyr gofal iechyd yw bod yn rhaid i'r goruchwyliwr benderfynu faint o oruchwyliaeth sydd ei hangen ar fyfyrwyr ym mhob achos, yn ôl lefel sgiliau/profiad yr hyfforddai a risg/cymhlethdod y driniaeth.

63. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth i gefnogi goruchwylio myfyrwyr o bell. Mae angen goruchwyliaeth agosach ar fyfyrwyr oherwydd profiad clinigol cyfyngedig ac i ymateb yn ddigonol lle gallai fod angen uwchgyfeirio brys neu mewn argyfwng. Roedd consensws hefyd yn ein bwrdd crwn gyda rhanddeiliaid ar brofi golwg ym mis Hydref 2025 bod y risgiau ar gyfer goruchwylio myfyrwyr yn uwch nag wrth ddirprwyo tasgau i gydweithwyr.

64. Yn ein hymchwil cleifion a'r cyhoedd yn 2023 i lywio'r Adolygiad Safonau, roedd ymatebwyr *"yn dod yn arbennig o anghyfforddus wrth ystyried y senario lle byddai optometrydd dan hyfforddiant yn cael ei oruchwylio o bell."*

65. O ystyried y consensws amlwg, rydym o'r farn bod rhinwedd mewn gwahanu goruchwylio myfyrwyr oddi wrth gydweithwyr anghofrestredig yn y safonau a dylai'r gofynion presennol i gofrestrai fod ar y safle, mewn sefyllfa i oruchwylio'r gwaith a wneir ac yn barod i ymyrryd, barhau ar gyfer goruchwylio myfyrwyr. Mae hyn yn gyson â'n polisi ar oruchwylio myfyrwyr, sy'n rhan o'n dull o sicrhau ansawdd cymwysterau addysg a hyfforddiant[10].

[10] Polisi goruchwylio ar gyfer darparwyr addysg

66. Rydym hefyd yn credu bod yr amgylchiadau lle gallai myfyriwr ddirprwyo tasgau yn ffurfiol heblaw am dasgau arferol, risg isel yn gyfyngedig. Nid yw safon 8 o'r Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol yn ystyried myfyrwyr yn dirprwyo gweithgareddau ac nid ydym yn gweld angen i ddiwygio hyn. Noder bod rhai gwelliannau drafftio i safon 8 o'r Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol wedi'u cynnig i wella eglurder.

**C10. Beth yn eich barn chi yw prif fanteision y gwelliannau arfaethedig i safon 8 o'r Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol a pham?**

**(Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich barn.)**

**C11. Beth yn eich barn chi yw prif risigau y gwelliannau arfaethedig i safon 8 o'r Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol a pham?**

**(Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich barn.)**

**C12. Rhowch unrhyw awgrymiadau ar gyfer geiriad amgen yma.**

*Goruchwylio cydweithwyr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig*

67. Mae'r datganiad safbwynt drafft wedi'i ddiweddaru yn nodi bod y Deddf Optegwyr a'r rheoliadau cysylltiedig yn caniatáu i optometrydd (neu ymarferydd meddygol cofrestredig) ddirprwyo rhai rhannau o'r prawf golwg i berson sydd wedi'i hyfforddi'n addas (megis optegydd dosbarthu neu rywun nad yw'n gofrestrai), ar yr amod bod yr optometrydd yn parhau i fod mewn rheolaeth gyffredinol o'r broses ac yn goruchwylio'r dasg (tasgau) sy'n cael eu cyflawni. Canfu'r astudiaeth Delphi a gomisiynwyd gennym[11] fod consensws y gellid dirprwyo rhai cydrannau'r prawf golwg yn ddiogel.

68. Y cwestiwn allweddol yr ydym yn ceisio ei ddatrys mewn perthynas â safon 9 yw a ddylai'r gofyniad presennol i gofrestrai fod ar y safle, mewn sefyllfa i oruchwylio'r gwaith a wneir ac yn barod i ymyrryd os oes angen er mwyn amddiffyn cleifion, barhau. Gan ystyried teleoptometreg fel enghraifft, o ystyried mai un sbardun ar gyfer y fformat hwn o ddarparu gwasanaeth yw llai o optometryddion ar gael mewn rhai lleoliadau daearyddol, mae'n bosibl y gallai ei gwneud yn ofynnol i gofrestrai fod ar y safle lesteirio arloesedd neu greu rhwystrau diangen i gael mynediad at ofal. Fel arall, efallai y bydd rhai

[11] Jonuscheit, S. et al. (2025), 'Testing of sight - a risk-based framework: Project report'

rhanddeiliaid yn ystyried gofyniad i gofrestrai fod ar y safle yn fesur diogelu'r cyhoedd hanfodol, yn enwedig yng nghyfnodau cynnar mabwysiadu teleoptometreg.

69. Cyfeiriodd yr ymchwil Delphi a gomisiynwyd gennym ar brofi golwg[12] at oruchwyliaeth ond ni ddaeth i unrhyw gasgliadau yn y maes hwn.

70. Canfu ein hymchwil cleifion a'r cyhoedd yn 2023 i lywio'r Adolygiad Safonau (nad oedd yn ymdrin â theleoptometreg yn benodol)[13], "*Roedd yr ymatebwyr yn gyfforddus gyda dirprwyo… Fodd bynnag, mae ganddynt ddisgwyliadau cymysg ynghylch goruchwyliaeth ac roeddent yn arbennig o amheus o oruchwyliaeth o bell*." Tynnodd yr ymchwil sylw hefyd at y ffaith, "*Roedd gan yr ymatebwyr ddisgwyliadau uchel o ran goruchwyliaeth – gan ddisgwyl i'r goruchwyliwr fod yn yr ystafell neu ar y safle bob amser"* ac *"Yn gyffredinol, nid oedd yr ymatebwyr yn gallu dychmygu sut y gellid cynnal goruchwyliaeth o bell yn effeithiol."*

71. Canfu'r ymchwil a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar farn cleifion a'r cyhoedd ar brofi golwg gan ddefnyddio teleoptometreg farn gymysg ar oruchwyliaeth o bell a'r gofyniad i gael optometrydd ar y safle. Roedd llawer o gyfranogwyr yn gyfforddus â'r syniad o dechnegydd yn cefnogi profion golwg a gynhelir gan optometrydd o bell, tra bod eraill yn teimlo'n gryf y dylai optometrydd fod yn bresennol yn gorfforol. Cwestiynodd rhai pam y dylid llacio'r gofyniad presennol yn y safon.

72. Rydym o'r farn, er bod cofrestrai sy'n dirprwyo gweithgareddau i gydweithwyr sydd wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso'n briodol yn cadw atebolrwydd am y gweithgareddau hynny, na fyddai'n ofynnol iddo fonitro'n uniongyrchol ddarparu'r gweithgareddau sy'n cael eu dirprwyo fel arfer. Mae gweithgareddau cyn sgrinio safonol (megis gwiriadau pwysedd mewnllygadol neu ffotograffau/sganiau o'r retina) yn enghreifftiau. Fodd bynnag, wrth i'r gweithgareddau a ddirprwywyd gael eu cyflawni, efallai y bydd achlysuron lle mae angen ymyrraeth, er enghraifft, lle mae asesiad pwysedd mewnllygadol wedi'i dirprwyo a bod canlyniadau annisgwyl o uchel neu anghyson (gall optometrydd ar y safle ddymuno gwirio'r darlleniad).

73. Ni fyddai pob sefyllfa lle mae cydweithwyr anghofrestredig yn rhan o brawf golwg yn gyfystyr â dirprwyo. Er enghraifft, nid ydym yn ystyried bod optometrydd yn cyfarwyddo technegydd i weithredu lamp hollt, lle mae'r optometrydd yn gwneud yr holl benderfyniadau ac yn cynnal y driniaeth, yn bodloni'r diffiniad hwn. Yn hytrach, rydym yn ystyried y technegydd yn cynorthwyo'r optometrydd gyda'r driniaeth. Fodd bynnag, pan ofynnir i

[12] Jonuscheit, S. et al. (2025), 'Testing of sight - a risk-based framework: Project report'
[13] Shift Insight (2023), General Optical Council: Research on public perceptions of the Standards of Practice for Optometrists and Dispensing Opticians, and the Standards for Optical Students

dechnegydd gwblhau gweithgareddau cyn sgrinio, er bod optometrydd yn parhau i fod â rheolaeth gyffredinol, yn asesu'r canlyniadau ac yn arfer barn, byddem yn ystyried y rhain yn weithgareddau dirprwyedig.

74. Y ddau opsiwn rydyn ni'n eu cynnig ar gyfer goruchwylio cydweithwyr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig yw:

- Mae Opsiwn 1 yn darparu ar gyfer goruchwyliaeth o bell o gydweithwyr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig os oes optometrydd neu optegydd dosbarthu arall (yn dibynnu ar y gweithgareddau i'w dirprwyo) ar y safle.

- Mae Opsiwn 2 yn darparu ar gyfer goruchwyliaeth o bell o gydweithwyr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig heb unrhyw ofyniad i gofrestrai fod ar y safle. Fodd bynnag, rhaid i'r cofrestrai sy'n dirprwyo gweithgareddau allu goruchwylio'r gwaith a wneir o hyd ac ymyrryd os oes angen i amddiffyn cleifion.

75. I'ch atgoffa, mae'r safonau'n berthnasol i bob sefyllfa, nid profion golwg wedi'u gwahanu yn ôl amser, lle neu berson yn unig.

76. Disgrifir pob un o'r opsiynau hyn yn fanylach isod.

*Opsiwn 1 – yn darparu ar gyfer goruchwyliaeth o bell o gydweithwyr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig os oes optometrydd neu optegydd dosbarthu arall (yn dibynnu ar y dasg i'w dirprwyo) ar y safle.*

*Geiriad arfaethedig: "Wrth ddirprwyo gweithgareddau i gydweithiwr heb ei gofrestru, rhaid i chi allu goruchwylio'r gwaith a wneir a bod yn barod i ymyrryd os oes angen i amddiffyn cleifion. Os ydych chi'n goruchwylio cydweithiwr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig o bell[14], rhaid i chi sicrhau bod cofrestrai arall, sydd â'r cymhwyster a'r profiad i ymgymryd â'r gweithgareddau dirprwyedig, ar y safle ac yn barod i ymyrryd os oes angen i amddiffyn cleifion."*

77. Mae'r drefn hon yn darparu i gofrestrai oruchwylio o bell gydweithiwr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig gan gadw'r gofyniad i gofrestrai fod ar y safle, rhag ofn bod sefyllfa'n gofyn am ymyrraeth ymarferol. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i gofrestrai mewn lleoliad gwahanol ddirprwyo tasgau i dechnegydd, er enghraifft. Os yw'r cofrestrai sy'n goruchwylio'r gwaith a wneir yn credu bod angen ymyrraeth, byddai'n gallu

[14] Mae gweithio o bell yn golygu bod mewn lleoliad sy'n wahanol i'r man lle mae'r claf yn derbyn triniaeth, yn hytrach nag wyneb yn wyneb yn yr un lleoliad.

arfer ei farn glinigol a sbarduno llwybrau uwchgyfeirio neu atgyfeirio neu geisio ymyrraeth ymarferol gan gofrestrai cymwys a phrofiadol ar y safle.

**C13. Beth yn eich barn chi yw prif fanteision opsiwn 1 a pham?**
**(Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich barn.)**

**C14. Beth yn eich barn chi yw prif risgiau opsiwn 1 a pham?**
**(Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich barn.)**

**C15. Rhowch unrhyw awgrymiadau ar gyfer geiriad amgen ar gyfer opsiwn 1.**

*Opsiwn 2 – yn darparu ar gyfer goruchwyliaeth o bell o gydweithwyr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig heb unrhyw ofyniad i gofrestrai fod ar y safle. Fodd bynnag, rhaid i'r cofrestrai sy'n dirprwyo gweithgareddau allu goruchwylio'r gwaith a wneir o hyd ac ymyrryd os oes angen i amddiffyn cleifion.*

*Geiriad arfaethedig: "Wrth ddirprwyo gweithgareddau i gydweithiwr anghofrestredig, rhaid i chi allu goruchwylio'r gwaith a wneir ac ymyrryd os oes angen i amddiffyn cleifion."*

78. Mae'r drefn hon yn darparu i gofrestrai oruchwylio o bell gydweithiwr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig heb gadw'r gofyniad i gofrestrai fod ar y safle. Fel gydag opsiwn 1, byddai'n caniatáu i gofrestrai mewn lleoliad gwahanol ddirprwyo gweithgareddau (i dechnegydd, er enghraifft), arfer ei farn glinigol a sbarduno llwybrau uwchgyfeirio neu atgyfeirio os oes angen. Gallai hyn gynnwys cynghori'r claf i fynychu ysbyty neu wneud trefniadau i gofrestrai arall gymryd drosodd ei ofal yn bersonol mewn lleoliad gwahanol neu ar amser gwahanol.

79. Mae cael gwared ar y cyfyngiadau sy'n atal goruchwyliaeth o bell heb ei gwneud yn ofynnol i gofrestrai fod ar y safle, yn gofyn am hyder y gellid nodi unrhyw broblemau posibl ac ymateb iddynt yn foddhaol gyda goruchwyliaeth o bell yn unig. Mae hefyd yn codi'r cwestiwn a fyddai asesu claf yn gyfan gwbl o ddelweddau ar sgriniau, y byddai'r sawl sy'n goruchwylio tasgau o bell wedi'i gyfyngu iddo, yn ddigonol i nodi a/neu wneud diagnosis o gyflyrau sydd angen ymyrraeth. Er mwyn i oruchwyliaeth o bell weithio'n effeithiol, rhaid iddi

ddibynnu ar ymyriadau diogelwch cleifion nad ydynt yn dibynnu ar gael cofrestrai arall yn bresennol yn gorfforol, er enghraifft, atgyfeirio claf i leoliad arall fel cyfleuster gofal eilaidd.

**C16. Beth yn eich barn chi  yw prif fanteision opsiwn 2 a pham?**
**(Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich barn.)**

**C17. Beth yn eich barn chi yw prif risigau opsiwn 2 a pham?**
**(Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich barn.)**

**C18. Rhowch unrhyw awgrymiadau ar gyfer geiriad amgen ar gyfer opsiwn 2.**

## Adran 3: Asesiad o'r effaith a'r Gymraeg

*Asesiad o'r effaith*

80. Rydym wedi cynhyrchu asesiad o'r effaith drafft. Mae gennym ddiddordeb mewn barn rhanddeiliaid ar ein hasesiad. Byddwn yn darparu asesiad effaith mwy manwl ar ôl i ni ystyried y safbwyntiau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

81. Mae'n bosibl y gallai profi golwg wedi'i wahanu gan amser, person a/neu le (e.e. profi golwg rhithwir gan ddefnyddio teleoptometreg) gael effeithiau cadarnhaol ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu anghysbell lle rydym yn deall y gall recriwtio optometryddion fod yn heriol. Drwy wneud gofal llygaid yn fwy hygyrch, gallai hyn arwain at ganfod cyflyrau sy'n bygwth y golwg yn gynharach.

82. Efallai y bydd gwahanu cydrannau'r prawf golwg yn llai addas i gleifion mewn grwpiau oedran hŷn, plant, y rhai â chyflyrau llygaid niferus neu rai sy'n bodoli eisoes, neu'r rhai a allai ddibynnu'n fwy ar barhad gofal neu ryngweithio wyneb yn wyneb. Bydd sicrhau bod cleifion yn cael gwybod yn glir am fformat y gofal sy'n cael ei gynnig fel y gallant wneud dewis ystyrlon (gan gynnwys dewis amgen lle bo'n briodol), yn ddiogelwch pwysig wrth gefnogi mynediad a phrofiad teg.

83. Mae yna hefyd risg bosibl o allgáu digidol lle mae profion golwg yn dibynnu ar dechnoleg neu ryngweithio o bell. Gall hyn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau, gan gynnwys pobl hŷn, y rhai ar incwm is neu'r rhai y mae eu hyder digidol yn gyfyngedig. Dylai dulliau lliniaru sicrhau bod opsiynau amgen, hygyrch yn parhau i fod ar gael. Gall fod yn anoddach i rai cleifion ddeall neu lywio drwy fformatau gofal mwy cymhleth neu amrywiol. Bydd cyfathrebu clir a safonau cyson yn bwysig i gefnogi profiad teg a hyder.

84. Gallai anghydraddoldebau ehangu pe bai'r farchnad yn esblygu fel bod llai o bractisau gydag optometryddion ar y safle, a fyddai'n golygu teithio ymhellach i gleifion o'r fath. Fodd bynnag, dylid lliniaru'r risg hon os penderfynwn gynnal y gofyniad yn safon 9 i optometrydd fod ar y safle at ddibenion goruchwylio.

**C19. A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid â nodweddion penodol?** (Ystyriwch oedran, rhyw, hil, crefydd neu gred, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hunaniaeth rhywedd, mynegiant rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, cyfrifoldebau gofalu neu unrhyw nodweddion eraill.)

a) Oes

b) Nac oes

c) Ddim yn siŵr

**Os oes, esboniwch eich rhesymeg.**

**C20. A oes unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai gael effaith gadarnhaol ar randdeiliaid â nodweddion penodol?** (Ystyriwch oedran, rhyw, hil, crefydd neu gred, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hunaniaeth rhywedd, mynegiant rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, cyfrifoldebau gofalu neu unrhyw nodweddion eraill.)

a) Oes

b) Nac oes

c) Ddim yn siŵr

**Os oes, esboniwch eich rhesymeg.**

*Y Gymraeg*

85. O dan safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i ni ystyried pa effeithiau, os o gwbl (boed yn gadarnhaol neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, boed yr effeithiau hynny'n gadarnhaol neu'n andwyol.

86. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn ymwneud â datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig ar brofi golwg a fydd yn berthnasol i fusnesau optegol sy'n darparu profi golwg ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Rydym wedi asesu nad yw'r cynigion hyn yn debygol o gael unrhyw effeithiau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac effeithio ar y ffordd y caiff y Gymraeg ei thrin. Fodd bynnag, wrth i'r ddarpariaeth o wasanaethau esblygu, bydd yn bwysig sicrhau bod anghenion iaith yn parhau i gael eu hystyried o fewn trefniadau cyfathrebu a mynediad i gleifion.

**C21. A fydd gan y newidiadau arfaethedig effeithiau, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar:**

**(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a**

**(ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

a) Bydd

b) Na fydd

c) Ddim yn siŵr

**Os bydd, esboniwch eich rhesymeg.**

**C22. A ellid diwygio'r newidiadau arfaethedig fel y byddent yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol, ar:**

**(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a**

**(ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

a) Gellid

b) Na ellid

c) Ddim yn siŵr

**Os gellid, esboniwch sut.**

**C23. A ellid diwygio'r newidiadau arfaethedig fel na fyddent yn cael effeithiau negyddol, neu fel y byddent yn cael llai o effeithiau negyddol, ar:**

**(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a**

**(ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

a) Gellid

b) Na ellid

c) Ddim yn siŵr

**Os gellid, esboniwch eich rhesymeg.**

## Adran 4: Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

87. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor rhwng 15 Gorffennaf a 21 Hydref 2026.

88. Byddem yn ddiolchgar pe gallech fewnbynnu eich ymatebion i'n hyb ymgynghoriad fel y gallwn gasglu gwybodaeth amdanoch chi neu'ch sefydliad ac a ellir cyhoeddi eich ymateb.

89. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n bosibl, gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy e-bostio consultations@optical.org

# Atodiad 1: Datganiad wedi'i ddiweddaru arfaethedig ar brofi golwg

## Adran 1 – Cyflwyniad

1. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â phrofi golwg at ddibenion Deddf Optegwyr 1989 ('y Ddeddf') a Rheoliadau Profi Golwg (Archwilio a Rhagnodi) (Rhif 2) 1989. Cyfeirir yn aml at y prawf golwg o fewn ystyr y Ddeddf fel prawf llygaid neu archwiliad llygaid ar draws gwledydd y DU.

2. Mae prawf golwg yn cynnwys gwiriadau ar gyfer craffter gweld[15], gwall plygiannol[16], gweld deulygadog[17] ac iechyd y llygaid[18], at ddibenion rhoi presgripsiwn a/neu wneud atgyfeiriad. Er bod hyblygrwydd yn y ffordd y gellir cynnal prawf golwg, dylai cofrestreion sicrhau bod profion golwg yn cynnwys gwiriadau ar gyfer craffter gweld, gwall plygiannol, golwg deulygadog ac iechyd y llygaid. Mae hyn yn cefnogi adnabod cyflyrau iechyd y llygaid yn gynnar.

## Adran 2 – Deddfwriaeth profi golwg

3. Mae Adran 36(2) o'r Ddeddf yn diffinio “profi golwg” fel “profi golwg gyda'r amcan o benderfynu a oes unrhyw ddiffyg golwg, ac os felly, pa un, a chywiro, gwella neu leddfu unrhyw ddiffyg o'r fath o natur anatomegol neu ffisiolegol drwy gyfrwng teclyn optegol a ragnodir ar sail y penderfyniad”.

4. Mae adrannau 26(1) a 26(2) o'r Ddeddf yn nodi, pan gynhelir prawf golwg, mai dyletswydd y person sy'n profi'r golwg fydd:

    - cynnal archwiliadau o'r llygad sy'n ofynnol at ddiben canfod anaf, clefyd neu annormaledd yn y llygad;

    - yn syth ar ôl y prawf, cyhoeddi datganiad ysgrifenedig bod yr archwiliadau uchod wedi'u cynnal, bod y claf yn cael ei atgyfeirio/nad yw'n cael ei atgyfeirio at ymarferydd meddygol a'r rheswm dros yr atgyfeiriad (yn ymarferol, mae hyn fel arfer yn cael ei gyfuno â'r presgripsiwn a grybwyllir isod); a

    - darparu presgripsiwn ysgrifenedig, wedi'i lofnodi ar gyfer teclyn optegol neu ddatganiad ysgrifenedig, wedi'i lofnodi yn cadarnhau nad oes angen teclyn optegol.

---

[15] Mae craffter gweld yn cyfeirio at ba mor dda y gall claf weld.

[16] Mae gwall plygiannol yn fath o broblem golwg sy'n ei gwneud hi'n anodd gweld yn glir. Mae enghreifftiau'n cynnwys myopia (byrolwg), hyperopia (hirolwg), presbyopia (anhawster sy'n gysylltiedig ag oedran i ganolbwyntio ar wrthrychau agos) ac astigmatedd (siâp y llygad a all achosi golwg aneglur).

[17] Golwg gan ddefnyddio dau lygad gyda meysydd golwg sy'n gorgyffwrdd, gan ganiatáu canfyddiad da o ddyfnder.

[18] Archwiliadau o'r llygad at ddiben canfod anaf, clefyd neu annormaledd yn y llygad (gweler erthygl 3 o Reoliadau Profi Golwg (Archwilio a Rhagnodi) (Rhif 2) 1989 am ragor o wybodaeth).

5. Mae Erthygl 3 o Reoliadau Profi Golwg (Archwilio a Rhagnodi) (Rhif 2) 1989 yn nodi bod rhaid i'r person sy'n profi'r golwg gynnal:

   - archwiliad o wyneb allanol y llygad a'i gyffiniau uniongyrchol;
   - archwiliad mewnllygadol, naill ai drwy gyfrwng offthalmosgop neu drwy unrhyw ddulliau eraill a ystyrir yn briodol; ac
   - archwiliadau ychwanegol o'r fath ag sy'n ymddangos yn angenrheidiol yn glinigol.

**Adran 3 – Dirprwyo gweithgareddau ar gyfer y prawf golwg**

6. Gall optometrydd (neu ymarferydd meddygol cofrestredig) ddirprwyo rhai rhannau o'r prawf golwg i berson sydd wedi'i hyfforddi'n addas (megis optegydd dosbarthu neu rywun nad yw'n gofrestrai), ar yr amod bod yr optometrydd yn parhau i gadw rheolaeth gyffredinol o'r broses ac yn goruchwylio'r dasg (tasgau) sy'n cael eu cyflawni.

7. Mae datblygiadau mewn technoleg yn golygu y gall optometrydd ddirprwyo rhai rhannau o'r prawf golwg yn ddiogel fel hyn. Mae enghreifftiau o dasgau y gellir eu dirprwyo'n ddiogel yn cynnwys gwiriadau pwysedd mewnllygadol, profion maes gweld, awtoblygiant a ffotograffau/sganiau o'r retina.[19]

8. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod cyfyngiadau penodol ar bwy all gynnal plygiant[20], yn dibynnu ar ei bwrpas. Mae plygiant[21] at ddiben rhoi presgripsiwn[22] wedi'i gyfyngu[23] i optometrydd cofrestredig, ymarferydd meddygol cofrestredig neu optometrydd/ymarferydd meddygol dan hyfforddiant dan oruchwyliaeth. Fodd bynnag, nid yw plygiant a wneir at ddibenion eraill (er enghraifft, i wirio presgripsiwn a gyhoeddwyd gan optometrydd neu ymarferydd meddygol cofrestredig wrth ffitio sbectol claf), wedi'i gyfyngu gan ddeddfwriaeth ac felly gall unrhyw un ei wneud.

9. Nid ydym yn fodlon y gall plygiant goddrychol[24] gael ei ddirprwyo'n ddiogel ac felly ni ddylai neb arall gynnal plygiant at ddibenion y prawf golwg[25].

---

[19] Evans, B., Shah, R., Conway, M. and Chapman, L. (2023), *Clinical research on refraction in the sight test*

[20] Plygiant yw'r asesiad o olwg claf i bennu'r gwall plygiannol.

[21] Mae plygiant fel rhan o'r prawf golwg yn cyfeirio at wiriad i bennu gwall plygiannol y claf ac a oes angen unrhyw fesurau cywirol fel sbectol neu lensys cyffwrdd.

[22] O dan adran 26 o Ddeddf Optegwyr 1989 a Rheoliadau Profi Golwg (Archwilio a Rhagnodi) (Rhif 2) 1989.

[23] Yn ôl adran 24 o'r Ddeddf Optegwyr a rheol 3 o'r Rheolau Profi Golwg gan Bobl sy'n Hyfforddi fel Optometryddion 1993.

[24] Techneg a ddefnyddir i bennu presgripsiwn lens ar gyfer cywiro golwg claf yn seiliedig ar adborth personol y claf am eglurder y lensys olynol a ddangosir iddynt.

[25] Am ragor o wybodaeth, gweler paragraffau 107-116 o'n hymateb y GOC i'r alwad am dystiolaeth ar y Ddeddf Optegwyr ac ymgynghoriad ar bolisïau cysylltiedig y GOC (2023).

10. Mewn amgylchiadau lle mae tasgau'n cael eu dirprwyo, rhaid i'r optometrydd gydymffurfio â'n Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu, gan gynnwys safon 9 ar oruchwyliaeth a dirprwyo.

11. Rhaid i fusnesau cofrestredig sy'n caniatáu dirprwyo gan yr optometrydd fodloni eu hunain, fel sy'n ofynnol gan y Safonau ar gyfer Busnesau Optegol, bod eu staff:

    - yn gallu arfer eu barn broffesiynol (safon 3.1);
    - wedi'u hyfforddi, eu cymhwyso a'u cofrestru'n briodol (safon 3.2); ac
    - yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi'n ddigonol (safon 3.3).

**Adran 4 – Gwahanu'r prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le**

12. Mae darparu gwasanaethau gofal llygaid yn esblygu ochr yn ochr â datblygiadau mewn technoleg ac mae fformatau wedi datblygu lle mae rhai cydrannau o'r prawf golwg yn cael eu cynnal ar wahanol adegau, gan wahanol bobl a/neu mewn gwahanol leoedd, boed hynny o bell neu yn bersonol.

13. Mae'r Ddeddf yn caniatáu gwahanu cydrannau'r prawf golwg yn ôl amser, person a/neu le, ac nid yw'n cyfyngu ar y math o offer, cynhyrchion neu dechnoleg y gall cofrestreion eu defnyddio.

14. Pa bynnag fformat o brawf golwg a ddefnyddir, rhaid i ofal, llesiant a diogelwch cleifion fod y peth pwysicaf bob amser, a rhaid i gofrestreion weithredu er budd gorau'r claf bob amser. Mae cyfrifoldeb clinigol am y claf a holl ofal y claf yn parhau i fod yn gyfrifoldeb yr optometrydd (optometryddion) sy'n cynnal y prawf golwg. Dylid dirprwyo cydrannau o'r prawf golwg i eraill a dylid defnyddio technoleg neu offer pan fo'r optometrydd yn fodlon y gellir eu cyflawni/defnyddio'n ddiogel ac yn gywir yn unig[26].

15. Lle mae mwy nag un optometrydd yn cynnal gwahanol gydrannau o'r prawf golwg, cyfrifoldeb yr optometrydd sy'n cynnal y cydrannau diweddaraf fydd sicrhau ei hun bod y cydrannau blaenorol wedi'u cynnal yn briodol ac, os na, ailadrodd y cydrannau hynny.

16. Os yw **cofrestrai busnes** yn cyflwyno fformat prawf golwg sy'n cynnwys gwahanu cydrannau yn ôl amser, person a/neu le, ei gyfrifoldeb ef yw:

[26] Yn y datganiad hwn rydym yn defnyddio'r termau 'dirprwyo' a 'chynorthwyo'. Yn y cyntaf, mae person yn gyfrifol am gyflawni'r dasg ac efallai na fydd yr optometrydd sy'n ei dirprwyo yn bresennol (e.e. cynorthwyydd/technegydd optegol yn cynnal sgan OCT) ond mae'n parhau i gadw rheolaeth gyffredinol dros y prawf golwg ac yn gyfrifol am oruchwylio'r dasg (tasgau) sy'n cael eu cyflawni. Yn yr olaf, gall optometrydd ofyn i eraill ei gynorthwyo gyda thasg ond nid yw'n ei dirprwyo iddynt (e.e. mewn fformat teleoptometreg o brofi golwg lle mae cynorthwyydd/technegydd optegol yn gweithredu offer dan gyfarwyddyd yr optometrydd a all weld y claf a chanlyniadau byw'r offer sy'n cael ei ddefnyddio trwy sgrin).

- bodloni e hun, a gallu dangos, bod y fformat yn ddiogel (gan gynnwys technoleg briodol ar waith i'w gefnogi) a pharhau i'w archwilio/gwerthuso yn barhaus. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer fformatau sy'n gwahanu cydrannau'r prawf golwg yn ôl dau ddimensiwn neu fwy o ran amser, person a/neu le;

- cael protocolau a manylebau gwasanaeth wedi'u dogfennu ar gyfer sut y dylid gweithredu'r fformat, gan gynnwys:

    i. sut i asesu a fyddai unrhyw gleifion yn anaddas ar gyfer y fformat oherwydd eu risg glinigol, eu bod yn agored i niwed eu ffactorau eraill; a

    ii. sut i reoli sefyllfaoedd pan ddaw'n amlwg yn ystod yr apwyntiad nad yw'r fformat yn addas i'r claf; a

- sicrhau bod staff sy'n ymwneud ag unrhyw gydrannau o'r prawf golwg (gan gynnwys y rhai sy'n cynorthwyo optometryddion neu'r rhai y mae optometryddion yn dirprwyo iddynt) wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso'n briodol.

17. Mae gan y **cofrestrai busnes** a'r **optometrydd** ill dau gyfrifoldeb i:

- gallu cyfiawnhau'n glinigol y rhesymau dros unrhyw wahanu cydrannau'r prawf golwg gan gyfnod sylweddol o amser (e.e. lle nad oedd yn bosibl cwblhau'r prawf mewn un apwyntiad);

- sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, gan gynnwys sicrhau nad yw presgripsiwn am sbectol yn cael ei roi nes bod holl gydrannau statudol y prawf golwg wedi'u cwblhau;

- cyfathrebu â chleifion i sicrhau eu bod yn deall fformat y prawf golwg a gynigir iddynt cyn yr apwyntiad neu cyn dechrau'r prawf golwg fel y gallant wneud dewis a rhoi caniatâd gwybodus yn briodol (neu fel arall);

- ystyried anghenion cleifion mewn amgylchiadau agored i niwed, gan gynnwys:

    i. efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai cleifion i ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig iddynt, neu y bydd angen gwybodaeth arnynt mewn gwahanol fformatau;

    ii. gall ffactorau sy'n gorgyffwrdd fod yn berthnasol i rai cleifion (er enghraifft, oedran, anabledd neu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol) a allai effeithio ar eu haddasrwydd ar gyfer gwahanol fformatau o brawf golwg;

    iii. cydnabod lle mae fformat profion golwg yn rhoi cleifion a allai fod yn llai abl i ymgysylltu â dulliau o bell neu ddulliau sy'n cael eu galluogi

gan dechnoleg dan anfantais ac ystyried dewisiadau eraill ar gyfer y cleifion hyn; a

- chydnabod y gall gwahanol fformatau o brawf golwg effeithio ar brofiad cleifion yn ogystal â diogelwch clinigol, a dylid ystyried y ddau beth wrth benderfynu a yw fformat yn briodol.

18. Rhaid i **gofrestrai unigol** roi gofal ei gleifion yn flaenllaw ac uwchlaw pob peth arall. Rhaid i gofrestrai unigol arfer barn broffesiynol ynghylch pa offer, cynhyrchion a thechnoleg i'w defnyddio i'w helpu i asesu anghenion pob claf, a'r ffordd fwyaf priodol o gynnal prawf golwg, yn enwedig wrth wahanu cydrannau yn ôl amser, person a/neu le. Wrth arfer eu barn broffesiynol, dylai unigolion sy'n gofrestreion ystyried:

    - natur unrhyw risgiau clinigol penodol (er enghraifft, oedran y claf, hanes teuluol, cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes ac unrhyw symptomau cyfredol);
    - a yw cleifion yn agored i niwed[27];
    - cyngor clinigol perthnasol;
    - cyngor gan y cyrff proffesiynol optegol;
    - cyngor gan reoleiddwyr perthnasol eraill, fel yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA);
    - arfer da cyfredol o ran defnyddio technoleg i lywio'r gofal a ddarperir;
    - ei allu i ddefnyddio fformat prawf golwg yn unol â'n safonau ymarfer;
    - canllawiau rheoleiddio ar y cyd ar ymgynghori a rhagnodi o bell: https://optical.org/resource/high-level-principles-for-remote-prescribing-pdf.html; a
    - cyngor iechyd y cyhoedd ar yr adeg dan sylw.

19. Rydym yn cydnabod nad yw pob busnes optegol wedi'i gofrestru gyda ni ac felly ni ellir eu dwyn i gyfrif drwy ein prosesau. Fodd bynnag, mae'r cyflwyniad i'n Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu yn nodi: “Rydych chi’n atebol yn broffesiynol ac yn bersonol gyfrifol am eich ymarfer ac am yr hyn rydych chi’n ei wneud neu ddim yn ei wneud, ni waeth pa gyfarwyddyd neu arweiniad rydych chi’n ei gael gan gyflogwr neu gydweithiwr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi bob amser allu cyfiawnhau eich

[27] Cleifion mewn amgylchiadau agored i niwed yw cleifion sydd, oherwydd eu hamgylchiadau personol, angen gofal, cymorth neu amddiffyniad penodol neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Gweler tudalen 3 a safon 7.1 o'n Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu a chanllawiau atodol ar ofalu am gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed am ragor o wybodaeth.

penderfyniadau a’ch gweithredoedd.” Mae hyn yn berthnasol i'r holl gofrestreion, waeth ble maen nhw'n gweithio.

**Adran 5 – Safonau ymarfer**

20. Mae ein safonau'n nodi'r egwyddorion allweddol y mae'n rhaid i gofrestreion eu dilyn i gadw eu hunain, y rhai maen nhw'n eu harwain neu'n eu rheoli, a'r rhai maen nhw'n gofalu amdanyn nhw, yn ddiogel. Mae'r safonau fel a ganlyn:

- Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu – safonau sy'n arbennig o berthnasol yw:
    - safon 2 (cyfathrebu'n effeithiol â'ch cleifion);
    - safon 3 (sicrhau caniatâd dilys);
    - safon 5 (cadw'ch gwybodaeth a'ch sgiliau'n gyfredol – gweler 5.1 a 5.3);
    - safon 7 (cynnal asesiadau, archwiliadau, triniaethau ac atgyfeiriadau priodol);
    - safon 9 (goruchwyliaeth a dirprwyo);
    - safon 12 (sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer eich cleifion); a
- Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol – safonau sy'n arbennig o berthnasol yw:
    - safon 2 (cyfathrebu'n effeithiol â'ch cleifion);
    - safon 3 (cael caniatâd dilys);
    - safon 6 (cynnal asesiadau, archwiliadau, triniaethau ac atgyfeiriadau priodol o dan oruchwyliaeth);
    - safon 8 (goruchwyliaeth a dirprwyo);
    - safon 11 (sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer eich cleifion); a
- Safonau ar gyfer Busnesau Optegol – safonau sy'n arbennig o berthnasol yw:
    - safon 1.1.6: sicrhau, wrth gyflwyno ymyriadau technolegol, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (AI) a dysgu peirianyddol, nad ydynt yn peryglu gofal cleifion, a bod safonau proffesiynol yn parhau i gael eu bodloni;
    - safon 1.2.4: dim ond yn darparu, yn hyrwyddo ac yn defnyddio offer, meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol (gan gynnwys meddalwedd a thechnolegau eraill) sy’n addas i’w defnydd arfaethedig, yn hylan ac mewn cyflwr da;

- safon 1.2.5: sicrhau bod staff sy’n defnyddio offer, meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol (gan gynnwys meddalwedd a thechnolegau eraill) wedi cael hyfforddiant priodol o ran sut i’w defnyddio;
- safon 1.2.11: sicrhau bod mynediad heb awdurdod at offer, meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol (gan gynnwys meddalwedd a thechnolegau eraill) ac ardaloedd cyfyngedig yn yr adeilad, yn cael ei atal;
- safon 1.3.5: rhoi’r wybodaeth sydd ei hangen ar gleifion neu ofalwyr i allu defnyddio, gweinyddu neu ofalu’n ddiogel am feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol (gan gynnwys meddalwedd a thechnolegau eraill) y maent wedi eu cael ar bresgripsiwn neu eu cyfarwyddo i’w defnyddio, er mwyn rheoli eu cyflyrau llygaid;
- safon 1.4: gall cleifion roi caniatâd dilys i gael triniaeth;
- safon 3.1: mae eich staff yn gallu arfer eu barn broffesiynol;
- safon 3.2: mae staff wedi'u hyfforddi, eu cymhwyso a'u cofrestru'n briodol; a
- safon 3.3: mae staff yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi'n ddigonol.

[Noder: Mae'r datganiad hwn yn disodli ein datganiad yn 2013 ar brofi golwg, sydd bellach wedi'i dynnu'n ôl.]

# Atodiad 2: Diwygiadau drafft i safonau goruchwyliaeth a dirprwyo

## Safonau Ymarfer arfaethedig drafft ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu

### 9. Sicrhau bod goruchwyliaeth a dirprwyo yn cael eu cynnal yn briodol

Mae'r safon hon yn berthnasol i oruchwylio myfyrwyr optegol a goruchwylio cydweithwyr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig.

Wrth oruchwylio, mae cyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau nad yw gofal a diogelwch cleifion yn cael eu peryglu. Pan ddirprwyir gweithgareddau i gydweithwyr anghofrestredig, y cofrestrai sy'n cadw cyfrifoldeb am y gweithgareddau a ddirprwywyd.

**9.1** Wrth oruchwylio myfyriwr neu oruchwylio cydweithiwr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig, rhaid i chi:

**9.1.1** Cymryd pob cam rhesymol i atal niwed i gleifion.

**9.1.2** Cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu'r gweithgaredd.

**9.1.3** Sicrhau bod manylion y rhai sy'n cael eu goruchwylio neu'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig yn cael eu cofnodi ar gofnod y claf.

**9.1.4** Meddu ar ddigon o gymwysterau a phrofiad i gyflawni'r swyddogaethau yr ydych yn eu goruchwylio neu eu dirprwyo.

**9.1.5** Sicrhau bod gan fyfyrwyr neu gydweithwyr anghofrestredig y cymwysterau, yr wybodaeth a/neu'r sgiliau priodol i ymgymryd â'r gweithgareddau.

**9.2** Mae goruchwyliaeth ddigonol o optometryddion dan hyfforddiant ac optegwyr dosbarthu dan hyfforddiant yn gofyn i chi:

**9.2.1** Cadw cyfrifoldeb clinigol dros y claf.

**9.2.2** Bod ar y safle, mewn sefyllfa i oruchwylio'r gwaith a wneir ac yn barod i ymyrryd os oes angen er mwyn diogelu cleifion.

**9.3** Wrth ddirprwyo gweithgareddau i gydweithiwr anghofrestredig, rhaid i chi:

**9.3.1** Cadw cyfrifoldeb am y gweithgareddau dirprwyedig a thros sicrhau eu bod wedi'u cyflawni i'r safon briodol.

**Opsiwn 1 – caniateir goruchwylio gweithgareddau dirprwyedig o bell, os yw optometrydd neu optegydd dosbarthu arall (yn dibynnu ar y gweithgareddau i'w dirprwyo) ar y safle.**

> **9.3.2** Yn gallu goruchwylio'r gwaith a wneir ac yn barod i ymyrryd os oes angen er mwyn diogelu cleifion. Os ydych chi'n goruchwylio cydweithiwr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig o bell[28], rhaid i chi sicrhau bod cofrestrai arall, sydd â'r cymhwyster a'r profiad i ymgymryd â'r gweithgareddau dirprwyedig, ar y safle ac yn barod i ymyrryd os oes angen i amddiffyn cleifion.

**Opsiwn 2 – goruchwylio gweithgareddau dirprwyedig o bell heb unrhyw ofyniad i gofrestrai fod ar y safle**

> **9.3.2** Yn gallu goruchwylio'r gwaith a wneir ac yn barod i ymyrryd os oes angen er mwyn diogelu cleifion.

**Safonau arfaethedig drafft ar gyfer Myfyrwyr Optegol**

**8. Sicrhau bod goruchwyliaeth a dirprwyo yn cael eu cynnal yn briodol**

Mae'r cyfrifoldeb i sicrhau nad yw goruchwyliaeth yn peryglu gofal a diogelwch cleifion yn cael ei rannu rhwng y goruchwyliwr a'r hyfforddai. Wrth gael eich goruchwylio:

**8.1** Dim ond os yw eich goruchwyliwr wedi'i gymeradwyo gan eich cyflogwr neu ddarparwr hyfforddiant y cewch ymgymryd â gweithgareddau dan oruchwyliaeth.

**8.2** Dim ond os yw eich goruchwyliwr ar y safle, yn gallu goruchwylio'r gwaith rydych chi'n ei wneud ac yn barod i ymyrryd os oes angen i amddiffyn cleifion y cewch chi ymgymryd â gweithgareddau dan oruchwyliaeth.

**8.3** Mae eich goruchwyliwr yn cadw cyfrifoldeb clinigol am y claf.

**8.4** Rhaid i chi gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu'r gweithgaredd.

[28] Mae gweithio o bell yn golygu bod mewn lleoliad sy'n wahanol i'r man lle mae'r claf yn derbyn triniaeth, yn hytrach nag wyneb yn wyneb yn yr un lleoliad.